# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 14 Rhagfyr 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

## 40(v5)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## Cwestiwn Brys 1

I'r Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant:

**Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Llywodraeth ddatganiad am effaith bwriad Llywodraeth y DU i leihau darpariaeth Swyddfeydd Post mewn ardaloedd gwledig?

## Cwestiwn Brys 2

I'r Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth:

**Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyhoeddiad heddiw ar yr ymchwiliad cyhoeddus i ffordd liniaru arfaethedig yr M4?

## 3 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 4 Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar Ymchwiliad y Pwyllgor i Hawliau Dynol

(30 munud)

## 5 Dadl Plaid Cymru

(60 munud)

**NDM6190** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau nad oes yr un aelwyd lle mae plant yn wynebu cael eu troi allan yng Nghymru.

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

**NDM6188** Paul Davies (Preseli Sir Benfro):

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi perfformiad Cymru yn Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr 2015 y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, a gyhoeddwyd ar 6 Rhagfyr 2016.

2. Yn gresynu bod sgoriau darllen, mathemateg a gwyddoniaeth yn is yn 2015 nag yn 2006.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth glir â thargedau mesuradwy ac amserlen glir i sicrhau gwelliant yn PISA 2018.

'Canlyniadau'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr - y DU'

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):

Ychwanegu fel pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn credu bod hyn o ganlyniad i 16 mlynedd o bolisïau addysg annigonol Llafur.

**Gwelliant 2.** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn nodi sylwadau'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn dilyn ei ymweliad i adolygu'r system addysg yng Nghymru, sef bod nifer o bethau wedi'u rhoi ar waith bellach sy'n rhoi Cymru ar drywydd mwy addawol.

Yn cydnabod bod yn rhaid rhoi pwyslais ar arweinyddiaeth, rhagoriaeth ym maes addysgu, a thegwch a lles ar gyfer dysgwyr er mwyn gwella safonau.

**Gwelliant 3.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn annog y Llywodraeth i wneud diwygiadau i'r cwricwlwm, addysg gychwynnol athrawon a datblygiad proffesiynol athrawon.

## Cwestiwn Brys 3

I’r Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth:

**Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu rhagor o fanylion am y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, gwerth sawl biliwn o bunnoedd, a gyhoeddwyd heddiw?

## 7 Cyfnod pleidleisio

## 8 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6189** Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)

Pam mae angen cofrestr cam-drin anifeiliaid ar gyfer Cymru

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 10 Ionawr 2017

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 7 Rhagfyr 2016 i'w hateb ar 14 Rhagfyr 2016

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig**

1. Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi prosiectau cynhyrchu ynni lleol? OAQ(5)0082(ERA)

2. Hannah Blythyn (Delyn): Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i wella amddiffynfeydd rhag llifogydd? OAQ(5)0080(ERA)

3. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y canllawiau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cyhoeddi i awdurdodau cynllunio ynghylch lagwnau slyri? OAQ(5)0078(ERA)

4. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru): Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o botensial ynni morlynoedd llanw? OAQ(5)0084(ERA)

5. Mark Isherwood (Gogledd Cymru): Sut y mae Llywodraeth Cymru yn monitro'r modd y caiff ansawdd aer ei reoli o safbwynt sŵn yng Nghymru? OAQ(5)0068(ERA)

6. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â datblygiadau ffermydd gwynt ar y tir? OAQ(5)0070(ERA) **TYNNWYD YN ÓL**

7. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru i wella'r amgylchedd yng nghanol ardaloedd trefol Casnewydd? OAQ(5)0079(ERA)

8. David Melding (Canol De Cymru): Beth yw'r goblygiadau i Lywodraeth Cymru yn dilyn yr Uwchgynhadledd Meiri C40, pan ymrwymodd Paris, Athen, Madrid a Dinas Mecsico i statws rhydd rhag diesel erbyn 2025? OAQ(5)0076(ERA)

9. Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr): Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o ganlyniadau torri'r biblinell olew yn Nantycaws? OAQ(5)0077(ERA)

10. Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i ddiogelu anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau? OAQ(5)0073(ERA)

11. Sian Gwenllian (Arfon): A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad ynglŷn â chynlluniau atal llifogydd yn etholaeth Arfon? OAQ(5)0081(ERA)**W**

12. Andrew RT Davies (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynorthwyo'r diwydiant amaeth yng Nghanol De Cymru? OAQ(5)0074(ERA)**R**

13. Huw Irranca-Davies (Ogwr): Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o adroddiad Living Planet 2016? OAQ(5)0071(ERA)

14. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru): Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch diwydiant cocos Gŵyr? OAQ(5)0069(ERA) **TYNNWYD YN ÓL**

15. Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ynni adnewyddadwy glân? OAQ(5)0083(ERA)

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant**

1. Andrew RT Davies (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am adroddiad Llywodraeth Cymru, 'Deall economeg y Diwydiant Cartrefi mewn Parciau'? OAQ(5)0090(CC)

2. Lynne Neagle (Torfaen): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â thlodi plant yn Nhorfaen? OAQ(5)0091(CC)

3. Rhianon Passmore (Islwyn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i ddarparu tai fforddiadwy newydd yn Islwyn? OAQ(5)0086(CC)

4. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro): A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r cymorth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddarparu i elusennau sy'n cefnogi teuluoedd? OAQ(5)0083(CC)

5. Michelle Brown (Gogledd Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi'r gymuned teithwyr? OAQ(5)0088(CC)

6. Caroline Jones (Gorllewin De Cymru): Beth yw polisi Llywodraeth Cymru ar gyfiawnder ieuenctid? OAQ(5)0084(CC)

7. Lee Waters (Llanelli): Beth sy'n cael ei wneud i gynnal momentwm ar weithredu rhaglen Atal Trais Caerdydd ledled Cymru? OAQ(5)0076(CC)

8. Paul Davies (Preseli Sir Benfro): A wnaiff y Gweinidog amlinellu beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i adfywio cymunedau yn Sir Benfro? OAQ(5)0075(CC)

9. Caroline Jones (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran trechu tlodi plant yn ne Cymru? OAQ(5)0081(CC)

10. Huw Irranca-Davies (Ogwr): Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog sy'n goruchwylio Tasglu'r Cymoedd ar adfywio cymunedau yn y cymoedd? OAQ(5)0078(CC)

11. David Rees (Aberafan): A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion am gamau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi plant yn Aberafan? OAQ(5)0077(CC)

12. Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y mentrau trechu tlodi yn ei bortffolio? OAQ(5)0079(CC)

13. Rhianon Passmore (Islwyn): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i gyn-aelodau o gymuned y lluoedd arfog? OAQ(5)0085(CC)

14. Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd): A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi mudiadau gwirfoddol sy'n mynd i'r afael â digartrefedd? OAQ(5)0089(CC)

15. David Melding (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr amcanestyniad tai amgen yn adroddiad Holmans? OAQ(5)0082(CC)